CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

General Certificate of Secondary Education

225/02

**CYMRAEG: IAITH GYNTAF**

**HAEN UWCH**

A.M. DYDD MAWRTH, 12 Mehefin 2007

(2½ awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.

Deunydd Darllen ar gyfer Adran A.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **tri** chwestiwn o Adran A ac **un** cwestiwn o Adran B.

Ceisiwch gwblhau Adran A mewn tua 1¾ awr er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf ¾ awr i gwblhau cwestiwn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

## ADRAN A

Darllenwch y tri darn darllen ac yna atebwch y **tri** chwestiwn.

Darn Darllen 1: Troi hanes yn ffilm
Darn Darllen 2: Cariad Creulon
Darn Darllen 3: Y Dathlu

- Darllenwch y darnau darllen a'r cwestiynau cyfan yn ofalus. Yna, atebwch y cwestiynau, gan ddefnyddio'r ffeithiau o'r darnau darllen yn unig.
- Wrth ateb dylech roi sylw i gywirdeb iaith a mynegiant. Rhoddir hyd at **20 marc** yn yr adran hon am ansawdd eich iaith a'ch mynegiant ar draws yr holl atebion.

**1. Troi hanes yn ffilm (Darn Darllen 1)**
**Cariad Creulon (Darn Darllen 2)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 1** atebwch y cwestiynau hyn yn eich geiriau eich hun:

(i) Ymhle y mae'r actor, Matthew Rhys, yn byw yn awr? [1]

(ii) I ble'r aeth y criw cyntaf o Gymry i sefydlu'r Wladfa? [1]

(iii) Beth mae Matthew Rhys yn dweud oedd un o brofiadau gorau ei fywyd? [2]

Ar ôl darllen **Darn Darllen 2** atebwch y cwestiynau hyn yn eich geiriau eich hun:

(iv) Rhestrwch y **pedwar** peth mae Dafydd yn dweud roedd yr arloeswyr wedi eu dioddef. [2]

(v) At ba wlad mae Pepita yn cyfeirio wrth ddweud yr 'Hen Wlad'? [2]

(vi) Pam nad oedd Dafydd yn y capel y noson honno? [2]

**[10]**

**2. Troi hanes yn ffilm (Darn Darllen 1)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 1** ysgrifennwch gyfweliad â Matthew Rhys yn dilyn ei ymweliad â Phatagonia.

Dylech gyfeirio at:

- beth ddysgodd am y wlad a'r bobl;
- beth wnaeth ef yn ystod ei ymweliad;
- beth mae'n gobeithio ei wneud yn y dyfodol.

[18]

Ysgrifennwch ar ffurf deialog. [2]

*Defnyddiwch wybodaeth o'r **darn darllen yn unig**.*

*Dylech ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

**[20]**

**3. Cariad Creulon (Darn Darllen 2)**
**Y Dathlu (Darn Darllen 3)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 2** a **Darn Darllen 3** cymharwch y ddau ddarn gan ddweud sut y maent yn debyg ac/neu'n wahanol.

Dylech gyfeirio at y canlynol wrth ymdrin â'r ddau ddarn:

(i) cynnwys (cymharwch **dri** pheth o Ddarn Darllen 2 â **thri** pheth o Ddarn Darllen 3); [6]

(ii) ffurf, iaith, arddull a disgrifiadau (cymharwch **dair** nodwedd o Ddarn Darllen 2 â **thair** nodwedd o Ddarn Darllen 3). Dylech drafod effeithiolrwydd y ffurf, yr iaith, yr arddull a'r disgrifiadau. [18]

Rhoddir marciau i chi am **gymharu bwriadol a threfnus** yn adran (i) a (ii). [3]

Dylech gynnwys **dyfyniadau o'r ddau ddarn** i gefnogi'ch sylwadau yn adran (i) a (ii). [3]

*Peidiwch ag ymdrin â'r ddau ddarn darllen ar wahân.*

**[30]**

**[60 + 20 = 80]**

**TROSODD AR GYFER ADRAN B.**

## ADRAN B

**4.** Dewiswch **un** o'r testunau canlynol ac ysgrifennwch arno.
Nodwch rif y cwestiwn a thestun y gwaith.
Dylai eich ateb fod o leiaf **ddwy** ochr tudalen.
Meddyliwch a chynlluniwch eich gwaith yn ofalus.
Rhowch sylw manwl i ysgrifennu'n gywir.

**[20 + 20 = 40]**

*(a)* **STORI:**

Ysgrifennwch stori ar y testun, 'Ynys Unig'.

*Ceisiwch wneud yn siwr bod eich stori'n ddiddorol a bod cymeriadau a sgwrs ynddi.*

*(b)* **DYDDIADUR:**

Ysgrifennwch **dri** diwrnod o ddyddiadur person yn ymweld ag ardal neu wlad arall am y tro cyntaf.

*Cofiwch ddychmygu mai chi yw'r cymeriad, nodi beth sy'n digwydd ar y tri diwrnod yn ogystal â sôn am feddyliau a theimladau'r person.*

*(c)* **PORTREAD:**

Ysgrifennwch bortread manwl o berson rydych yn ei edmygu'n fawr.

*Ceisiwch ddweud sut berson ydyw, sut mae'n edrych ac unrhyw hanesion diddorol amdano / amdani a pham rydych yn ei edmygu.*

*(ch)* **ARAITH** neu **ERTHYGL** yn **MYNEGI BARN** ar y testun:

Mae'n iawn i bobl ymfudo o un wlad i wlad arall!

*Medrwch gytuno neu anghytuno â'r gosodiad uchod. Ceisiwch fod yn drefnus a rhoi tystiolaeth i gefnogi eich pwyntiau a'ch barn bob tro.*

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

General Certificate of Secondary Education

225/02 - A

**CYMRAEG: IAITH GYNTAF**

**HAEN UWCH**

A.M. DYDD MAWRTH, 12 Mehefin 2007

(2½ awr)

**DEUNYDD DARLLEN AR GYFER ADRAN A I'W DDEFNYDDIO GYDA HAEN UWCH**



| | Tudalen |
|---|---|
| Darn Darllen 1 | 2 |
| Darn Darllen 2 | 3 |
| Darn Darllen 3 | 4 |

# AR DAITH

## DARN DARLLEN 1

## Troi hanes yn ffilm

**Mae gwylltineb a phrydferthwch Y Wladfa ym Mhatagonia yn denu'r actor Matthew Rhys.**




Fe fyddai Matthew Rhys wrth ei fodd yn actio mewn ffilm yn ymwneud â Phatagonia – ac mae diddordeb eisoes gan y cwmnïau mawr yn y syniad. 'Mae hanes Y Wladfa fel ffilm epig,' meddai'r actor o Gaerdydd sydd bellach yn byw yn Los Angeles yn yr Unol Daleithiau.

Yn 1865 penderfynodd tua 150 o bobl o Gymru ymfudo i Batagonia yn Ariannin yn Ne America. Ar ôl amser caled yn sefydlu'r Wladfa mae disgynyddion y Cymry, a aeth drosodd ar long Y Mimosa yn parhau i fyw a siarad Cymraeg yno hyd heddiw.

Mae'n sôn am obeithion y criw cyntaf o Gymry a aeth ar long Y Mimosa yn 1865 o Lerpwl i sefydlu gwladfa yng nghanol tir diffaith yn Ariannin, heb wybod pa mor galed fyddai hi.

'Mae beth gyflawnodd y Cymry cyntaf yno yn anhygoel,' meddai. 'Roedd y caledi corfforol, y llifogydd a'r ofn yn enfawr.'

Bellach mae gan yr actor lu o ffrindiau'n byw yn Y Wladfa, ac fe fu nifer ohonyn nhw yn ei e-bostio gyda hanes ymweliad tîm rygbi Cymru â Phorth Madryn.

Fe fu Matthew Rhys ar ei ymweliad cyntaf â'r Wladfa chwe blynedd yn ôl, ac fe gafodd ei hudo gan yr hanes a gan brydferthwch y lle. Yna, ym mis Tachwedd y llynedd, fe fu ar daith ar draws Patagonia gyda gorwyrion rhai o'r ymfudwyr cyntaf. Roedden nhw'n ail-greu y daith enwog i chwilio am dir ffrwythlon.

'Dyma un o'r pethau anoddaf wnes i erioed,' meddai Matthew Rhys, 'sef marchogaeth 700km o Borth Madryn at draed mynyddoedd yr Andes. Ond dyna un o brofiadau gorau fy mywyd hefyd!' Aeth gyda chriw o 30 o ddisgynyddion oedd yn cynrychioli'r garfan wreiddiol.

'Ro'n i ar dân eisie mynd a phan dynnodd un o'r criw yn ôl o'r fenter ar y funud ola', fe ges i wahoddiad i fynd. Fi oedd yn cynrychioli Robert C. Jones, y bachgen cynta' i gael ei eni yn Y Wladfa. Mi wnes i ddyddiadur fideo o'r cyfan.

'Roedden ni'n gwersylla bob nos mewn lleoliadau prydferth newydd, o dir diffaith Paith y Dwyrain i dir gwyrdd yr Andes. Wedi cyrraedd Trevelin wrth droed yr Andes, fe gawson ni dderbyniad a chroeso enfawr. Mae'n wlad hynod o brydferth, yn gyfoethog dros ben o ran natur, ac roedd tystio i'r hyn gyflawnodd yr ymfudwyr gwreiddiol gyda fy llygaid fy hun yn brofiad emosiynol iawn. Roedd y fenter yn llwyddiant hefyd gan fod y Gymraeg a thraddodiadau'r Cymry yn parhau yno er gwaetha'r rhwystrau mawr a wynebodd yr ymfudwyr gwreiddiol yr holl flynyddoedd yn ôl.

'Yn ddelfrydol, fe hoffwn ddychwelyd i weithio yn Y Wladfa fel actor ar ffilm am hanes y lle ac yn galonogol, mae yna un neu ddau o brosiectau'n ceisio codi arian i wneud hynny.'

(Addasiad o erthygl yn y cylchgrawn *Golwg*)




(Map - *Yr Ateb Cywir*, Gwasg Carreg Gwalch)

*Y Wladfa – enw ar ran o dalaith yn Ne America sef Patagonia lle ymgartrefodd y Cymry yn 1865*
*ymfudo - symud i wlad arall i fyw*
*disgynyddion – perthnasau / teulu*
*gorwyrion – plant i ŵyr neu wyres*

## DARN DARLLEN 2

**Cariad Creulon** (Addasiad): Bryn Williams

*Mae'r ddrama'n digwydd ar aelwyd teulu o Gymry ym mynyddoedd yr Andes, De America, ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Symudodd mam y teulu, Meri Ifans, yno gyda'r Cymry a aeth i Batagonia i sefydlu'r Wladfa Gymreig yn 1865. Cafodd ei phlant eu geni yn Ne America.*

*(Mae'r fam, Meri Ifans, allan mewn cyfarfod yn y capel Cymraeg. Mae ei phlant, Mair a Dafydd, yn siarad amdani. Morwyn o Indiad yw Pepita.)*

Dafydd: Mae hi'n meddwl y byd ohonon ni. Dyna pam mae hi am inni fod yn… wel, yn bur ac yn ... yn dda, a thrwy hynny yn hapus.

Mair: Hapus?

Dafydd: Mae hi'n credu mai trwy fod yn dda y mae bod yn hapus. Fe ddylem deimlo'n ddiolchgar tuag ati.

Mair: Sut medr neb naturiol ddiolch am...

Dafydd: Hi ddaeth â ni i'r byd. Hi pia' ni.

Mair: Chafodd neb erioed ddewis ei rieni.

Dafydd: Ac fe adawodd ei chartref yng Nghymru er mwyn i ni, ei phlant, gael gwell cyfle yn y wlad yma.

Pepita: Biti iddi hi adael Cymru, ynte? Mae hi'n sôn am yr Hen Wlad fel petai'n baradwys.

Mair: 'Rwyt ti'n iawn, Pepita. Gadael 'i Chymru oedd ei chamgymeriad hi. Petaem ni wedi cael ein magu yno, efallai y buasai'n haws inni ddod i arfer â byw'n ddof a pharchus. 'Does ganddi hi ddim cydymdeimlad â ni. 'Tydw'i ddim yn meddwl iddi fod yn ifanc erioed – yn ifanc mewn gwirionedd. 'Roedd plant Cymru yn hen yn ddeuddeg oed yn cael eu gwahardd i fod yn blant naturiol, yn enwedig ar y Sul. Ond 'rydan ni'n ifanc, wedi'n magu mewn gwlad ifanc.

Dafydd: Ond mae hi'n ddyletswydd arnon ni i gadw'r delfrydau Cymreig, a'r hen draddodiadau. Dyna oedd amcan sefydlu'r wlad newydd yma. Dyna sut y medrodd yr arloeswyr ddioddef poen a siom a hiraeth a gofid. Aberthu i greu Cymru well oedden nhw.

Mair: Gan feddwl mai eu ffordd nhw o fyw oedd yr unig ffordd iawn, a cheisio gorfodi pawb o'u cwmpas i fyw yr un fath â nhw.

Dafydd: Ond y mae ffordd y Cymry o fyw yn well na….

Mair: Ydi, i bobl Cymru, a hynny yng Nghymru ei hun. Ond nid yma.

*(Mae Meri Ifans yn dod i mewn o'r capel. Mae ganddi wyneb llyfn, llygaid llym a llais caled. Mae ei gwisg yn barchus ddu.)*

Meri Ifans: *(heb droi i edrych ar Dafydd)*
'Rwyt ti wedi cyrraedd felly.

Dafydd: Do, Mam. *(Wedi eiliadau o ddistawrwydd anghysurus)*. Oedd yna lawer yn y cyfarfod yn y capel?

Meri Ifans: Yr un rhai. Rhyw ddwsin ohonon ni. Wn i ddim be ddaw o'r capel, a'r bobl ifanc yn poeni dim amdano fo. 'Roedd Mrs. Jenkins, yn ei ffordd ei hun, yn awgrymu heno nad oedd yr un ohonoch chi yno.

Mair: Pam na wnaiff hi feindio'i busnes ei hun.

Meri Ifans: *(yn troi i edrych arni)*
Mair! Y mae hi'n fusnes i bob aelod o'r capel weld fod aelodau eraill yn ffyddlon.
Sut na fuaset ti yn y capel heno? *(Wrth Dafydd)*

Dafydd: Mi es yn rhy bell i allu cyrraedd yn ôl mewn pryd.

Meri Ifans: Rhaid i ti drefnu dy waith yn well. Yng Nghymru fe fyddem ni'n gofalu gorffen popeth cyn amser capel.

Mair: Pryd y cawn ni sylweddoli nad yng Nghymru yr ydan ni? Pa bryd yn enw'r nefoedd? *(Yn mynd allan)*

Meri Ifans: A dyna'r tâl sydd i'w gael am ymdrechu i fagu plant yn deilwng! Dyna'r parch sydd ganddyn nhw i'r arloeswyr!

*delfrydau – safonau perffaith*
*arloeswyr – rhai sy'n cychwyn rhywbeth neu'n paratoi'r ffordd ar gyfer rhywbeth newydd*


## DARN DARLLEN 3

(Dyma fel y canodd Irma Hughes de Jones i'r Wladfa gan mlynedd ar ôl i'r Cymry cyntaf lanio ym Mhorth Madryn, Patagonia.)

### Y Dathlu
(Capel Tabernacl, Trelew, 1965)

Can mlynedd?
Ie, canrif gyfan,
Er y glanio ym Madryn
A'r gwynt yn oer.

Gweld am y tro cyntaf
Y bryniau llwydion,
Y twmpathau sychion,
Y traeth glân…
A syllu'n syn
Ar ôl eu traed hwythau ar dywod Madryn…
A thywod amser.



Heddiw cynhesrwydd.
A'r plant a'r wyrion
Yn cofio… Cofio
Am dadau a theidiau
Yn adrodd yr hanes
Am y gweithio, y crwydro a'r arloesi.
Am yr hwyl ar y paith a'r hela,
Y direidi a'r brawdgarwch
Yn yr amser gynt 'ers talwm',
A rhoi i'r dyfodol
Ryw syniad am y dyddiau a fu.

*brawdgarwch – dangos cariad a chyfeillgarwch at bobl eraill*